# CYNEFIN LLANSADWRN

# Ymgynghoriad Cymunedol yn Llansadwrn a'r fro

MAI 2026

Cynhaliwyd gan:
Pobl, Tir, Môr CIC
&
Iaith Cyf.

Ariannwyd gan:
Cynllun Perthyn,
Llywodraeth Cymru

Perthyn

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cynnwys

| | | Tud. |
|---|---|---|
| **1.0** | **Cyflwyniad** | **3** |
| 1.1 | Cefndir | 3 |
| 1.2 | Cwestiynau ymchwil | 4 |
| 1.3 | Dull gwaith | 5 |
| 1.4 | Yr ymatebwyr | 6 |
| 1.5 | Proffil o'r ardal leol | 7 |
| **2.0** | **Ymatebion i'r ymgynghoriad** | **11** |
| 2.1 | Sut le yw Llansadwrn, Llanwrda a'r fro? | 11 |
| 2.2 | Beth ydych chi'n hoffi am Lansadwrn, Llanwrda a'r gymdogaeth leol | 11 |
| 2.3 | Beth yw elfennau pwysicaf y gymdogaeth i chi? | 12 |
| 2.4 | Beth sy'n rhwystredig am fyw yn Llansadwrn, Llanwrda a'r fro? | 12 |
| 2.5 | Pa agweddau ar fywyd yn Llansadwrn, Llanwrda a'r fro y gellid eu cryfhau, eu gwella neu eu datblygu? | 13 |
| 2.6 | Oes syniadau gyda chi am weithgareddau, prosiectau neu ddatblygiadau newydd a allai fod o fudd i bobl Llansadwrn, Llanwrda a'r fro? | 14 |
| 2.7 | Oes syniadau penodol gyda chi ynghylch prosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg, gwella gwasanaethau lleol, hyrwyddo ynni adnewyddadwy, gwarchod natur a bioamrywiaeth neu ddatblygu cyfleoedd celfyddydol a diwylliannol? | 15 |
| 2.8 | A fyddech chi'n gefnogol i weld cwmni cymunedol yn cael ei sefydlu i geisio gwireddu rhai o'r syniadau a gynigiwyd gan bobl leol yn ystod yr ymgynghoriad hwn (e.e. Cymdeithas Budd Cymunedol)? | 16 |
| 2.9 | Unrhyw sylw arall? | 17 |
| 2.10 | Trafodaeth grŵp ymgynghorol | 17 |
| **3.0** | **Crynodeb, casgliad ac argymhellion** | **19** |
| 3.1 | Crynodeb o'r canfyddiadau | 19 |
| 3.2 | Casgliad | 21 |
| 3.3 | Argymhellion | 22 |

**Atodiad 1:** Proffil o'r ardal leol
**Atodiad 2:** Data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Yn Nhachwedd 2025 derbyniodd grŵp cymunedol Cynefin Llansadwrn grant o £7,000 gan gynllun Perthyn Llywodraeth Cymru, cynllun a weinyddir gan Cwmpas, i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i'r posibiliad o sefydlu Cwmni Budd Cymunedol (neu endid tebyg) a allai hyrwyddo pedwar ffrwd o waith yn yr ardal – cryfhau'r Gymraeg, cryfhau'r mynediad i ddiwylliant, a chryfhau gwasanaethau lleol, ynghyd ag edrych ar opsiynau o ran datblygu ynni adnewyddadwy.

Comisiynwyd dau gwmni ymgynghorol i gydweithio â'r grŵp prosiect lleol i gynnal yr ymgynghoriad – Pobl Tir Môr a chwmni IAITH Cyf. Roedd bwriad hefyd i gael arweiniad gan Cwmpas, o gael ymateb cadarnhaol gan y trigolion lleol, ynglŷn â pha gerbyd corfforedig fyddai'n briodol i geisio gwireddu'r amcanion a adnabyddir.

Roedd nifer o syniadau cychwynnol wedi cael eu trafod yn lleol, gan gynnwys:

- datblygu a rhedeg asedau neu wasanaethau lleol yn gymunedol,
- datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy,
- datblygu prosiectau ynghylch perchnogaeth gymunedol o dir,
- datblygu siop gymunedol,
- sefydlu canolfan iaith/diwylliant a fyddai'n hwb i'r Gymraeg yn lleol.

Roedd y grŵp lleol wedi adnabod rhai heriau arwyddocaol i hyfywedd cymdeithasol yr ardal o gynnal sgyrsiau yn lleol, e.e.

- cau Ysgol Gynradd Llansadwrn yn 2017 ac Ysgol Gynradd Llanwrda yn 2016,
- cau siop y pentref yn Llanwrda yn 2024,
- prisiau uchel tai preifat yn yr ardal a'r diffyg tai rhent sydd ar gael i bobl leol,
- newidiadau demograffig ac ieithyddol,
- canoli gwasanaethau yn y trefi cyfagos ac ymhellach.

Dosbarthir cyllid y cynllun Perthyn yn rhan o raglen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, felly mae cryfhau'r amodau cymdeithasol sy'n cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg yn rhan allweddol o nod ac amcanion y cynllun. Nod y cynllun a sefydlwyd yn 2022 yw:

> *"...darparu cymorth cyfnod cynnar lleol i gymunedau yn y gogledd a'r gorllewin, sydd â lefelau uchel o berchnogaeth ail gartrefi, sydd â diddordeb mewn datblygu syniadau menter gymdeithasol i gefnogi ac amddiffyn y Gymraeg*". (Perthyn - Cwmpas)

Mae'r nod hwnnw yn ganolog i weledigaeth y grŵp lleol, wrth i'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y fro ostwng i dan 50% yn ystod y degawdau diweddar (Cyfrifiad 2021 – 44%).

Cynigodd grŵp Cynefin Llansadwrn am y grant er mwyn:

- sefydlu sail wybodaeth ar gyfer cynllunio pellach,
- sefydlu llwyfan a cherbyd pwrpasol a allai ymateb yn adeiladol pan fo cyfleoedd datblygol yn cynnig eu hunain, ac
- annog ysbryd rhagweithiol ymhlith y boblogaeth leol a fyddai'n cynyddu eu perchnogaeth dros eu dyfodol nhw eu hunain.

Bu'r prosiect yn rhedeg rhwng Rhagfyr 2025 a Mawrth 2026.

**Ffiniau amwys a'r cysyniad o gymuned**

Mae'r cysyniadau o gymuned, cymdogaeth, bro ac ardal yn rhai cymhleth ac aml-agweddog. Mae canfyddiadau unigolion yn medru dibynnu i raddau helaeth ar brofiadau a chanfyddiadau cyffredin amryfal rwydweithiau cymdeithasol yn lleol. Gall hefyd fod ynghlwm â dealltwriaethau amrywiol o berthyn i'r gymdogaeth leol ac ymdeimlad unigolion o'u hunaniaeth ddiwylliannol.

O gydnabod y cymhlethdod hynny, penderfynodd y grŵp ganolbwyntio'r ymgynghoriad ar ddwy gymuned weinyddol, sef Llansadwrn a Llanwrda. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw ffiniau cymdogaeth, bro ac ardal yn gyfyngedig i'r ffiniau gweinyddol hynny. O ganlyniad mabwysiadwyd ymagwedd amwys at ffiniau'r ardal weithredol sy'n cydnabod dealltwriaethau lleol a'r ffaith bod rhwydweithiau brodorol yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau gweinyddol..

At hynny, cydnabyddir bod y disgwrs 'cymunedol' yn tueddu i gynnwys pawb o drigolion ardal tiriogaeth benodol o fewn y diffiniad o 'gymuned'. Realiti'r sefyllfa, yn amlach na pheidio, yw mai canran (gymharol isel yn aml) o'r boblogaeth leol sy'n ymwneud ac yn ymroi i gyfrannu at fywyd cymdeithasol ardal benodol a'i gynnal. Aed at y cynllun felly, gyda'r ddealltwriaeth mai cryfhau'r ymwneud a'r ymroi hwnnw fyddai un o nodau tymor hir y prosiect. Gosod y seilwaith ar gyfer gwireddu'r nod hwnnw mae'r prosiect hwn.

## 1.2 Cwestiynau ymchwil

Ar sail y cais a gyflwynwyd cytunwyd mai prif gwestiynau ymchwil yr ymarferiad fyddai'r canlynol:

1. Pa anghenion datblygu y mae pobl Llansadwrn a Llanwrda yn eu nodi o ran:

- hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant,
- mynediad i'r celfyddydau a chyfleoedd diwylliannol eraill,
- gwella gwasanaethau lleol,
- hyrwyddo ynni adnewyddadwy, a
- gwarchod a hyrwyddo bioamrywiaeth yr amgylchedd naturiol.

2. Pa gerbyd fyddai pobl yr ardal yn ei gefnogi er mwyn cyflawni'r amcanion hynny?

At hynny, lluniwyd fframwaith o gwestiynau allweddol a fyddai'n sail i'r ymchwil maes. Bwriad y fframwaith oedd cynnig cyfleoedd i'r trigolion lleol gynnig gwybodaeth, barn, sylwadau a syniadau ar hyd y trywydd canlynol:

1. Disgrifiwch Llansadwrn a Llanwrda: Sut le yw e? Pwy sy'n byw 'ma? Sut maen nhw'n ennill eu bywoliaeth? Beth maen nhw'n ei wneud â'i hamser sbâr? Beth sy'n bwysig iddyn nhw?

2. Ble mae Llansadwrn a Llanwrda? Gyda phwy arall mae pobl Llansadwrn yn ymwneud? Ble maen nhw'n gweithio? Ble maen nhw'n cael eu haddysg? Ble maen nhw'n hamddena a chael eu hadloniant? O ble daw gwasanaethau sy'n eu cefnogi? Ble maen nhw'n siopa? O ble maen nhw'n cael eu hynni?

3. Beth ydych chi'n hoffi am Lansadwrn, Llanwrda a'r gymdogaeth leol? Beth yw'r elfennau pwysicaf i chi?

4. Beth yw cryfderau Llansadwrn, Llanwrda a gweddill y fro? Pa elfennau ac agweddau y gellid eu hystyried yn asedau lleol?

5. Pa agweddau ar fywyd y gymdogaeth yn Llansadwrn a Llanwrda y gellid eu cryfhau, eu gwella neu eu datblygu?

6. Oes syniadau gyda chi am weithgareddau, prosiectau neu ddatblygiadau newydd a allai fod o fudd i bobl Llansadwrn a Llanwrda?

7. A fyddech chi'n gefnogol i weld cwmni cymunedol yn cael ei sefydlu i geisio gwireddu rhai o'r syniadau a gynigiwyd gan bobl leol yn ystod yr ymgynghoriad hwn (e.e. Cymdeithas Budd Cymunedol)?

8. Unrhyw sylw arall?

Cynhwyswyd y cwestiynau uchod yng nghynllun ymgysylltu'r cynllun a'r fframwaith uchod fu'n sail i'r holiadur a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad cymunedol.

## 1.3 Dull Gwaith

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad trwy gydol mis Mawrth 2026 trwy gynnal nifer o ymarferiadau a oedd yn rhoi cyfleoedd i'r trigolion lleol rannu gwybodaeth a mynegi barn, syniadau a sylwadau ar sail y cwestiynau ymchwil uchod. Roedd y prif ddulliau casglu gwybodaeth yn cynnwys:

- sgyrsiau unigol wyneb-yn-wyneb ac ar y ffôn,
- cyflwyniad a sgwrs gyda grwpiau allweddol o fewn y gymdeithas leol,
- holiadur ar-lein a holiadur papur ar gyfer unigolion,
- digwyddiad ymgysylltu yn Narllenfa Llansadwrn ar 14 Mawrth 2026.

Bwriad dewis y dulliau amrywiol hyn oedd ei gwneud hi'n hawdd ac yn hygyrch i drigolion yr ardal fedru cyfrannu i'r ymgynghoriad – naill ai wyneb-yn-wyneb, ar-lein neu ar bapur – fel y dymunent.

Creodd y grŵp lleol restr o holl grwpiau cymunedol yr ardal, er mwyn eu targedu mewn amrywiol ffyrdd. Roedd y rhestr honno yn cynnwys:

- Cyngor Cymuned Llansadwrn
- Cyngor Cymuned Llanwrda
- Eglwys Llansadwrn
- Gardd Gymunedol Llansadwrn
- Clwb Gwawr
- Adran yr Urdd Llanwrda
- C.Ff.I. Llangadog
- Sadwrn Singers
- Sadwrn Start Art
- Sadwrn Stitchers
- Pwyllgor Darllenfa Llansadwrn
- Vestry Venture (Llansadwrn)
- Nyddwyr, gwehyddion a lliwfwyr Llansadwrn
- Ymddiriedolaeth Cornwallis
- Sinema Sadwrn
- Clwb Chwech o'r Gloch Llansadwrn
- Disgyblion ysgol uwchradd a chynradd y fro

Hyrwyddwyd yr holiadur ar-lein a'r holiadur papur ymysg y cymdeithasau lleol. Crëwyd cod QR a ddosbarthwyd drwy'r deunyddiau cyhoeddusrwydd, ar wefan pentref Llansadwrn, cyfryngau cymdeithasol yr ardal a grwpiau ffôn. Hysbysebwyd yn nghylchgronau cymunedol y fro, gan gynnwys 'The Post' ac 'Y Lloffwr'. Cafwyd sgyrsiau uniongyrchol hefyd gyda'r cynghorau cymuned, Pwyllgor y Ddarllenfa, Adran yr Urdd, C.Ff.I. Llangadog a nifer o unigolion sydd yn cynnal swyddogaethau arweiniol yn y gymdogaeth.

Canolbwynt yr ymgynghoriad oedd digwyddiad ymgynghorol agored i'r gymuned a gynhaliwyd yn y Ddarllenfa yn Llansadwrn ar ddydd Sadwrn, 14 Mawrth, rhwng 12.00yp a 4.00y.p. Daeth 44 o drigolion lleol, o gryn ystod o oedrannau, i'r digwyddiad hwnnw yng nghwrs y prynhawn a chafwyd ymateb brwd a chadarnhaol iawn.

Ar gyfer y diwrnod ymgysylltu roedd Pobl Tir Môr wedi paratoi bwrdd deniadol ar sail yr holiadur a alluogai unigolion i adael sylwadau a syniadau ar nodiadau gludiog. Roedd y grŵp lleol, ynghyd â'r ymgynghorwyr yn bresennol i gynnal sgwrs, ysgogi ymateb ac annog unigolion i lenwi'r holiaduron. Cynhaliwyd gweithdy celf hefyd gan artist profiadol, Angela K. James, a

chafwyd cyflwyniad ar ddemograffi'r ardal gan yr ymgynghorydd o IAITH Cyf., sgwrs a amlygodd nifer o faterion a oedd o gonsyrn i'r rhai oedd yn bresennol.

Gadawyd y bwrdd yn y Ddarllenfa am wythnos ar ôl y prynhawn ymgysylltiol er mwyn rhoi cyfle i eraill gyfrannu i'r ymgynghoriad. Symudwyd y bwrdd i Neuadd Llanwrda am wythnos olaf yr ymgynghoriad, yn enwedig er mwyn dal sylwadau yn digwyddiad cymunedol yr wythnos hwnnw gan Adran Urdd Llyn y Fan ar y 25ain o Fawrth, sef noson Bingo lle roedd oddeutu 50 o drigolion yn bresennol. Roedd pawb yn cyfrannu'n ddienw ac nid ydym yn datgelu unrhyw sylwadau gan unigolion penodol yn yr adroddiad hwn.

Caewyd yr ymgynghoriad at 27ain Mawrth. Ar ddiwedd y cyfnod ymgysylltu roedd y cyfraniadau canlynol wedi eu derbyn gan 87 o unigolion:

- 44 o gyfraniadau yn ystod y prynhawn ymgynghorol,
- 14 o sylwadau ychwanegol ar y bwrdd ymgysylltu yn dilyn y prynhawn ymgynghorol,
- 18 ateb i'r holiadur ar-lein,
- 6 o ymatebion i'r holiadur papur,
- 6 o sgyrsiau uniongyrchol gyda chynrychiolydd o'r grŵp lleol.

Casglwyd yr holl sylwadau o'r holiaduron, o'r sgyrsiau unigol ac o'r bwrdd sylwadau ynghyd mewn cronfa wybodaeth gyfun gan Pobl Tir Môr. Ceir cofnod ysgrifenedig o 82 o'r ymatebion – tua 8% o'r boblogaeth leol. Dadansoddwyd a threfnwyd y wybodaeth honno gan ymgynghorydd IAITH Cyf. ar gyfer yr adroddiad hwn.

Gwiriwyd drafft o'r adroddiad gan y grŵp lleol cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

## 1.4 Yr ymatebwyr

Wrth ymwneud â'r ymgynghoriad holwyd y cyfranwyr ynghylch eu nodweddion hunaniaeth, o ran ceisio sicrhau cynrychiolaeth gydradd a chynhwysol o amrywiaeth y gymuned. Rhoddir crynodeb isod. Ceir adroddiad llawnach fel atodiad i'r adroddiad.

<u>Oedran</u>

Roedd proffil oedran y 41 cyfrannwr a atebodd y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| Ystod oedran | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dan 15 oed | 5 | 12% |
| 16-24 oed | 0 | 0% |
| 25-49 oed | 13 | 32% |
| 50-64 oed | 12 | 29% |
| 65 a hŷn | 11 | 27% |

Tra bod rhai plant dan 15 oed wedi ymateb mae trwch yr ymatebion wedi eu cynnig gan oedolion dros 25 oed. Mae tan-gynrychiolaeth arwyddocaol o ymatebion gan bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Cydnabyddir bod y grŵp prosiect wedi targedu disgyblion ysgolion uwchradd a C.Ff.I. Llangadog, ond nid ydyn nhw'n cael eu cynrychioli'n llawn yma.

Rhywedd

Roedd 20 o'r 32 (62.5%) a atebodd y cwestiwn hwn yn fenywod a 12 (37.5%) yn wrywod – sy'n awgrymu tangynrychiolaeth o farn gwrywod yr ardal.

Sgiliau iaith Gymraeg

Atebodd 31 ymatebydd y cwestiwn hwn (28 yn llawn). Roedd ystod eu sgiliau yn y Gymraeg fel a ganlyn:

| Sgiliau | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Deall Cymraeg llafar | 12 | 39% |
| Siarad Cymraeg | 11 | 35% |
| Darllen Cymraeg | 13 | 42% |
| Ysgrifennu Cymraeg | 9 | 29% |
| Dysgu Cymraeg | 3 | 10% |
| Dim un o'r uchod | 12 | 39% |

Roedd gan 61% a atebodd y cwestiwn rhyw sgil yn y Gymraeg.

Er hynny, 7 o 28 ymatebydd (25%) a nododd mai'r Gymraeg oedd eu prif iaith. Nododd 19 o'r 28 (68%) mai Saesneg oedd eu prif iaith a nododd 2 o'r 28 (7%) mai iaith arall oedd eu prif iaith.

Cyflyrau iechyd tymor hir a chanolig

Nododd 10 (32%) o'r 31 a atebodd y cwestiwn eu bod yn dioddef o gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n parhau neu a ddisgwylir i barhau am 12 mis neu fwy.

Statws economaidd

Nododd 10 (32%) o'r 31 a atebodd y cwestiwn eu bod yn byw ar aelwydydd incwm isel.

Teuluoedd

Nododd 14 (45%) o'r 31 a atebodd y cwestiwn eu bod yn aelodau o deuluoedd a oedd â phlant 17 oed ac iau.

Cefndir ethnig

Roedd pob un (100%) o'r 24 a atebodd y cwestiwn hwn yn nodi eu bod yn perthyn i grŵp ethnig 'Gwyn Cymreig neu Brydeinig'.

Casgliad

Gan gydnabod mai cyfran fechan o'r unigolion a ymgysylltwyd â nhw atebodd y cwestiynau hunaniaeth, i'r dyfodol, er mwyn sicrhau ymgysylltu cynrychioliadol, awgrymir y dylai'r grŵp gweithredol lleol wneud ymdrech i ymgysylltu gyda'r genhedlaeth iau, gyda gwrywod, gyda siaradwyr Cymraeg brodorol a chyda unigolion o unrhyw leiafrifoedd ethnig sy'n byw'n lleol.

## 1.5 Proffil o'r ardal leol


Er mwyn cyfrannu at y sail wybodaeth creodd ymgynghorwyr IAITH Cyf. broffil syml o'r ardal ar sail ystadegau Cyfrifiad 2021 ar gyfer pobl dros 3 oed a hŷn, gan gymharu'r ystadegau ar gyfer cymunedau Llansadwrn a Llanwrda gyda'r ystadegau ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Chymru

gyfan. Cyflwynir crynodeb o'r prif nodweddion isod. Mae'r proffil llawn yn cael ei gyflwyno fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Ffigwr 1: Ffiniau Cyngor Cymuned Llansadwrn




Ffigwr 2: Ffiniau Cyngor Cymuned Llanwrda




### Poblogaeth

Poblogaeth gyfun y ddwy gymuned (pobl dros 3 oed a hŷn) yn 2021 oedd **983**. Roedd ychydig yn fwy o fenywod yn yr ardal na gwrywod.

Benywod = 50.7%
Gwrywod = 49.3%

**Siaradwyr Cymraeg**

Yng Nghyfrifiad 2021 nododd **424** eu bod yn gallu siarad Cymraeg - canran o **43.5%.** Roedd y ganran ychydig yn uwch yn Llanwrda (46%) nac yn Llansadwrn (41%). Yn unol â thueddiadau demograffig cyffredinol yn Sir Gaerfyrddin tybir bod canran uwch o siaradwyr Cymraeg ymysg yr oedrannau iau nag yn y grwpiau oedran hŷn.

**Galwedigaethau**

Dengys y Cyfrifiad mai'r grŵp economaidd mwyaf arwyddocaol yw'r grŵp 'galwedigaethau masnachau medrus'. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y diwydiant adeiladu, crefftwyr a'r diwydiant lletygarwch. Mae'r grŵp hefyd yn cynnwys y diwydiant amaeth a busnesau cysylltiol.

Yn Llansadwrn roedd y ganran a gyflogwyd o fewn y grŵp hwn yn **22.7%** ac yn Llanwrda roedd yn **30.5%.** Mae hyn o'i gymharu â'r ganran ar gyfer Sir Gaerfyrddin (14.8%) a Chymru (12.2%) – sy'n wahaniaeth hynod arwyddocaol.

Mewn cymhariaeth roedd tipyn llai o swyddi yn y sector gwerthiannau a gwasanaethau cwsmeriaid.

**Deiliadaeth Tai**

O ran deiliadaeth tai cafwyd canran arwyddocaol uwch o berchnogaeth (neu ran-berchnogaeth) tai yn yr ardal. Roedd **354 (82%)** o dai mewn perchnogaeth breifat – o'i gymharu â 71% yn Sir Gaerfyrddin a 67% ar draws Cymru gyfan.

Roedd tai ar rent yn gymharol brin yn yr ardal, gyda 28 yn unig o dai rhent cymdeithasol (6.5%) ar gael. Y ganran ar draws Cymru yw 16.5%. Roedd 49 yn dai rhent preifat neu'n dai a oedd ddi-rent (11.5%). Y cyfartaledd Cymreig cyfatebol yw 17.1%.

**Oedran**

Yng Nghyfrifiad 2021 nodwyd bod 139 o blant a phobl ifanc rhwng 3 a 15 oed yn byw yn y ddwy gymuned - 75 yn Llansadwrn a 64 yn Llanwrda - **14%** o'r boblogaeth leol.

Roedd 557 o'r trigolion lleol rhwng 16 a 64 oed – 294 yn Llansadwrn a 263 yn Llanwrda – **56%** o'r boblogaeth.

Roedd **30%** o'r boblogaeth yn 65 oed a hŷn – cyfanswm o 301 o unigolion, 141 yn Llansadwrn a 160 yn Llanwrda. Mae'r ffigwr yma yn arwyddocaol gan mae'r canrannau cyfatebol ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Chymru gyfan yw 24.2% a 21.3%.

**Crynodeb**

Felly, o gymharu â phoblogaethau Sir Gaerfyrddin a Chymru gyfan, mae poblogaethau pentrefi Llansadwrn a Llanwrda:

- yn gymharol hŷn,
- yn fwy tebygol o siarad Cymraeg,
- yn fwy tebygol o weithio ym maes amaeth a meysydd medrus cysylltiedig, ac
- yn fwy tebygol o fod yn berchen eu tai.

Yn naturiol, mae cwestiynau'n codi'n am hyfywedd y cymunedau hyn (a dyfodol y Gymraeg ynddynt) os yw canran uchel o'r boblogaeth yn bobl hŷn a chanran isel o'r boblogaeth yn bobl ifanc. Mae'r ganran o bobl sy'n rhentu eu tai yn gymharol isel a gall bod argaeledd cartrefi

priodol ar gyfer pobl iau a mynediad i'r farchnad dai hefyd yn ffactor sy'n effeithio ar gynaladwyedd y cymunedau i'r dyfodol. Gall fod cwestiynau i'w codi hefyd os yw cymuned yn ddibynnol ar ddiwydiant sy'n profi heriau, caledi neu newid, (e.e. y wasgfa economaidd gyfredol ar y sector amaethyddol).









# 2.0 Ymatebion i'r ymgynghoriad

Yn yr adran hon fe geisiwn grynhoi'r ymatebion a ddaeth o'r amrywiol ffynonellau.

### 2.1 Sut le yw Llansadwrn, Llanwrda a'r fro?

Cafwyd 34 o ymatebion.

Disgrifir Llansadwrn a Llanwrda fel pentrefi hardd a thawel sy'n gorwedd mewn tirwedd hyfryd o fryniau a chymoedd gleision ar gyrion Dyffryn Tywi. Pwysleisiwyd prydferthwch naturiol yr ardal gan lawer. Nodwyd natur wledig ac amaethyddol yr ardal a'r ffaith ei fod yn nodweddiadol o dirwedd gogledd Sir Gaerfyrddin.

Yn gyffredinol, disgrifir y gymdogaeth mewn termau cadarnhaol. Dywedwyd bod y bobl yn gymdogol a chyfeillgar ac yn gefnogol o'i gilydd. Nodwyd bod yna gryn ewyllys da yn yr ardal ac awydd ac ysbryd i oroesi a ffynnu. Dywedwyd bod ymwybyddiaeth gref o gymuned yn yr ardal, bod yna ymdeimlad cryf o berthyn a bod pobl yn ymroi yn gydlynus i gynnal y gymdogaeth leol, gan ysgogi ymdeimlad o falchder bro.

Nodwyd bod y Gymraeg yn iaith fyw yn yr ardal a'i bod yn cael ei defnyddio yn feunyddiol gan ganran arwyddocaol o'r boblogaeth – yn enwedig y boblogaeth frodorol. Nodwyd hefyd bod newidiadau demograffig diweddar wedi gweld yr ardal yn Seisnigo o ran iaith. Er nad oedd tensiynau amlwg i'w gweld rhwng teuluoedd cysefin a mewnfudwyr diweddar, nododd un ymatebydd nad oedd rhwydweithiau ieithyddol bob amser yn cymysgu. Nododd ymatebydd arall bod angen mwy o bontio bwriadus rhwng y ddwy gymuned ieithyddol a mesurau pendant i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei lle dyledus yn y gymuned ac yn ffynnu fel iaith gymunedol.

Gwerthfawrogwyd darpariaeth yr eglwys a'r dafarn leol yn Llansadwrn, ynghyd â'r cymdeithasau gwirfoddol amrywiol a geir yn y fro. Er hynny, nododd nifer bod yr ardal yn dioddef o ddiffyg gwasanaethau – yn enwedig ar ôl cau'r ddwy ysgol, caffi, tafarn a siop leol. Nodwyd hefyd bod cyfleoedd i gymdeithasu yn brin. Roedd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn bryder i rai. Nodwyd hefyd bod yna botensial economaidd o fwyhau gwerth y diwydiant cynhyrchu bwyd lleol, ynghyd â gwerth yr amgylchedd a'r fioamrywiaeth leol.

### 2.2 Beth ydych chi'n hoffi am Lansadwrn, Llanwrda a'r gymdogaeth leol?

Cafwyd 54 o ymatebion.

Nododd nifer o ymatebwyr eu bod yn hoff o dawelwch a phrydferthwch naturiol y fro. Nodwyd y golygfeydd godidog, gan gynnwys medru gweld copaon Bannau Sir Gâr a phrydferthwch Dyffryn Tywi. Gwerthfawrogwyd yr amgylchedd naturiol a'r llwybrau cerdded cyhoeddus a ddarperir yn lleol, gan gynnwys darpariaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a Choed Cadw.

Gwerthfawrogwyd hefyd medru byw mewn ardal wledig ond heb fod yr ardal honno'n rhy ddiarffordd. Roedd lleoliad y pentrefi ger y briffordd yr A40 a hwylustod hynny i gyrraedd trefi marchnad yr ardal i'w weld yn fanteisiol, gan fod hynny'n rhoi mynediad rhwydd i wasanaethau iechyd a systemau trafnidiaeth gyhoeddus.

Roedd yna werthfawrogiad cadarn a brwd o fywyd cymdeithasol yr ardal. Nodwyd nifer o grwpiau a chymdeithasau gwirfoddol yn yr ymatebion:

- Sioe Llansadwrn
- Sinema Sadwrn
- Y Ddarllenfa

- Eglwys Llansadwrn
- Vestry Venture
- Sadwrn Singers
- Clwb Celf
- Sexton Arms
- Criw codi sbwriel
- Parc chwarae
- Big Lunch
- Adran yr Urdd

Cafwyd gwerthfawrogiad hefyd o'r unigolion gweithgar sy'n cynnal y gweithgareddau uchod. Bu cryn sôn am bwysigrwydd Sioe Llansadwrn fel digwyddiad cymdeithasol o bwys – gydag apêl am fwy o wirfoddolwyr i'w gynnal.

Gwerthfawrogwyd natur ddwyieithog y fro hefyd mewn dau ymateb, gydag un ymatebydd yn cynnwys nodyn yn pryderu am hyfywedd y Gymraeg yn y fro.

Ond yr ymateb mwyaf o ran nifer, yn sicr, oedd gwerthfawrogiad o'r ysbryd cymunedol a gaed ymhlith y trigolion lleol. Disgrifiwyd pobl yr ardal yn bobl gymdeithasol, greadigol, caredig, cyfeillgar a gofalgar o'i gilydd. Dau ymateb nodweddiadol fyddai:

> *"Mae'n deimlad bendigedig i fyw yma, wedi ein hamgylchynu gan natur a phobl hynod o garedig, gofalgar a chreadigol yr wyf yn ffodus i fedru eu galw'n ffrindiau."*
>
> *"Rwy'n hoffi'r senario, yr amgylchedd naturiol a'r bywyd gwyllt. Rwy'n hoffi'r digwyddiadau cymunedol bywiog sy'n y pentref. Rwy'n hoffi agwedd gyfeillgar a chefnogol y bobl."*

### 2.3 Beth yw elfennau pwysicaf y gymdogaeth i chi?

Cafwyd 18 ymateb. Nid oedd y cwestiwn hwn ar y Bwrdd Ymgynghorol, oherwydd diffyg lle. Dim ond drwy'r holiadur oedd modd ei ateb.

Eto gwelwyd yr un themâu yn ymddangos. Roedd gwerthfawrogiad o natur wledig a phrydferthwch naturiol yr ardal. Nodwyd y tir comin yn benodol fel cynefin pwysig i fywyd gwyllt.

Gwerthfawrogwyd y bywyd cymdeithasol, gan nodi'r Ddarllenfa, y dafarn, y cae cymunedol a'r eglwys fel adnoddau allweddol i gymdeithas Llansadwrn. Awgrymodd un (nad oedd yn grefyddol) y dylid gwneud mwy o ddefnydd o Eglwys Llansadwrn fel ased i'r gymuned.

Y bobl eu hunain dderbyniodd yr ymateb mwyaf. Nodwyd eu bod yn agos atoch, yn gyfeillgar ac yn sgilgar, gyda nifer o unigolion a oedd yn barod i ymroi i gynnal y gymdeithas leol. Cafwyd dau ymateb a oedd yn nodi mai arwyddocâd yr ardal iddyn nhw oedd mai dyma fro eu mebyd a'i fod yn rhan annatod o'u hunaniaeth.

Nododd ymatebion eraill bod y gyfradd isel o dorcyfraith, cyflymder y band-eang ffibr a'r teithiau cerdded misol yn agweddau pwysig iddyn nhw.

### 2.4 Beth sy'n rhwystredig am fyw yn Llansadwrn, Llanwrda a'r fro?

Cafwyd 54 o ymatebion.

Serch eu gwerthfawrogiad cyffredinol o'r ardal, mynegwyd nifer helaeth o rwystredigaethau gan yr ymatebwyr. Ymhlith y materion amlycaf roedd:

- Oriau cyfyngedig y dafarn a'r ffaith nad oedd y dafarn yn darparu bwyd yn rheolaidd. Nodwyd bod angen canolfan y gallai unigolion a theuluoedd ei defnyddio i gyfarfod yn gymdeithasol.

- Gwendidau'r drefn trafnidiaeth gyhoeddus yn lleol (bws, trên a llwybr beics), ac yn enwedig y diffyg bysiau hwyr yn ôl o Lanymddyfri a Llandeilo.
- Diffyg siop y gornel yn yr ardal.
- Tyllau yn arwynebedd yr heolydd gwledig.
- Bod hi'n anodd cael gwybodaeth ynghylch beth sy'n digwydd yn lleol.

Nodwyd hefyd rhai rhwystredigaethau mwy strategol:

- Bod y gymdeithas ddim mor glos ers cau'r ddwy ysgol leol.
- Bod y Gymraeg yn ystyriaeth eilradd yn lleol a bod dim digon o weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnal yn yr ardal.
- Bod dim canolfan ddiwylliannol amlwg yn yr ardal.
- Bod hi'n her i ddenu'r genhedlaeth iau i bwyllgorau a swyddi arweiniol o fewn y gymdogaeth.
- Bod rhwystrau i gerdded rhai llwybrau cerdded yn yr ardal – tra medren nhw, o'u hagor, fod yn ased economaidd posib.
- Bod yr ardal yn ddibynnol ar systemau allanol i sicrhau sicrwydd bwyd ac ynni.

Ymysg rhwystredigaethau eraill nodwyd:

- Bod y parc a'r cae cymunedol ymhell oddi wrth ei gilydd.
- Bod angen gwella'r parc i'r plant.
- Bod seddi'r Ddarllenfa braidd yn anghyfforddus.
- Bod angen gwella arwyddion yn lleol.
- Bod angen mwy o finiau sbwriel yn lleol.
- Bod angen cyflenwad o halen ffordd erbyn y gaeaf.

Gresynwyd bod gellïoedd lleol wedi eu torri yn ddiweddar. Cafwyd un ymateb yn cwyno am y bwriad i godi peilonau trydan yn yr ardal. Roedd un ymatebydd yn nodi'r angen i dorri'r borfa yn y parc, tra bod un arall eisiau peidio torri porfa'r cae cymunedol tan fis Mehefin er mwyn hybu bioamrywiaeth.

O ran ymatebion cadarnhaol awgrymwyd gan un ymatebydd bod angen i'r trigolion ddod ynghyd i ddatrys rhai o'r anawsterau lleol. Awgrymodd ymatebydd arall y gellid ystyried penodi cydlynydd i gydgordio ymdrechion lleol yn hynny o beth.

### 2.5 Pa agweddau ar fywyd y gymdogaeth yn Llansadwrn, Llanwrda a'r fro y gellid eu cryfhau, eu gwella neu eu datblygu?

Cafwyd 16 ymateb. Eto, nid oedd y cwestiwn hwn ar y Bwrdd Ymgynghorol oherwydd diffyg lle. Dim ond drwy'r holiadur oedd modd ei ateb.

Y ddau ymateb pennaf oedd (a) yr awydd i weld siop (a Swyddfa'r Post) yn ail agor yn yr ardal a (b) yr awydd i weld y dafarn ar agor am fwy o oriau ac yn darparu bwyd ac adloniant.

Ymhlith yr ymatebion eraill nodwyd:

- Yr angen i sicrhau bod y gwasanaeth bws yn parhau.
- Awydd i weld gweithgareddau fin nos yn cael eu cynnal yn y Ddarllenfa.
- Awgrym i ddatblygu'r cae cymunedol o ran adeilad(au) cymunedol a maes parcio.
- Bod llwybrau cyhoeddus yn cael eu gwarchod a'u datblygu a bod mwy o fynediad yn cael ei hwyluso i gefn gwlad.
- Bod angen darpariaeth i blant ac ieuenctid lleol, e.e. clwb ieuenctid cyfrwng Cymraeg.
- Gwella'r ffyrdd a thorri'r gwrychoedd ar ochr y ffyrdd.

Yn fwy strategol, nodwyd hefyd yr angen i ddatblygu mwy o dai fforddiadwy yn y fro.

Cafwyd un ymateb a oedd yn awgrymu fod yna ychydig o rwystredigaeth ynghylch y berthynas rhwng dau grŵp iaith yr ardal:

> *"Yr hyn y byddwn i wrth fy modd yn ei weld yw bod y bobl sydd wedi eu magu yn Llansadwrn yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn y gymdeithas. Weithiau mae'n teimlo fel petai'r rhai sydd bob amser wedi ei alw'n gartref yn cael eu hanwybyddu, mewn gwirionedd nhw yw'r rhai sy'n cario hanes a chymeriad y fro, ynghyd â'i barhad."*

**2.6 Oes syniadau gyda chi am weithgareddau, prosiectau neu ddatblygiadau newydd a allai fod o fudd i bobl Llansadwrn, Llanwrda a'r fro?**

Cafwyd 71 ymateb i'r cwestiwn hwn. Rhestrir y syniadau isod gyda nifer yr ymatebion lluosog mewn cromfachau.

Cafwyd nifer o awgrymiadau ynghylch datblygu'r cae cymunedol (8), gan gynnwys:

- codi adeilad(au) cymunedol pwrpasol (2)
- plannu coedwig gymunedol
- parc chwarae newydd
- llain *boules/bocce*
- gŵyl gerddoriaeth
- gŵyl gwrw
- BBQ cymunedol
- byrddau picnic ar gyfer digwyddiadau bwyd.

Roedd nifer helaeth o'r ymatebion yn awgrymu digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol amrywiol i unigolion â diddordeb:

- Clwb llyfrau/darllen Cymraeg a Saesneg (7)
- Clwb garddio (6)
- Cymdeithas hanes lleol (5)
- Nosweithiau o gerddoriaeth (4)
- Clwb celf/crochenwaith/ffotograffiaeth (3)
- Clwb nyddu/gwehyddu/cynnyrch gwlân (3)
- Clwb rhedeg (2)
- Nosweithiau ffilm (2)
- Clwb trafod pynciau'r dydd (2)
- Clwb astronomeg
- Clwb bwyta'n iach
- Bingo
- Clwb cinio i'r henoed
- Clwb gwerthfawrogi gwin
- Grŵp coedwigo
- Prosiect i hyrwyddo ailgylchu yn lleol
- Clwb cerdded cŵn.

Roedd awgrymiadau eraill yn fwy uchelgeisiol eu bwriad, yn fwy eang eu cwmpas ac yn meddu ar y potensial i gyfrannu'n fwy uniongyrchol at amcanion strategol grŵp Cynefin Llansadwrn:

- Agor siop y gornel gymunedol (8) – parhaol neu achlysurol.

- Sefydlu grŵp i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus a chasglu sbwriel – a allai gyfrannu at y diwydiant twristaidd lleol (6)
- Cynnal achlysuron i drwco, gwerthu a hyrwyddo cynnyrch lleol – a allai gyfrannu at yr economi sylfaenol yn lleol (6)
- Sefydlu darpariaeth i blant ac ieuenctid (5) cyfrwng Cymraeg – gan gynnwys, ysgol y goedwig, clwb Lego a darpariaeth chwaraeon – a allai gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg yn lleol.
- Rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol, e.e. hysbysfwrdd neu gylchlythyr (5) – i hyrwyddo cydlyniant cymunedol.
- Dosbarthiadau Cymraeg a gweithgareddau i ddysgwyr/pontio – a allai hefyd gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg yn lleol (4)
- Cynhyrchu ynni adnewyddol trwy godi tyrbin gwynt (2) a chreu ynni trwy *biomethane* (1).
- Cynhyrchu cyfeiriadur sgiliau lleol – i hyrwyddo'r economi sylfaenol (2)
- Cynllun ceir gwledig (County Cars) – i hwyluso mynediad i wasanaethau cyhoeddus.
- Gwella'r parc chwarae
- Sefydlu tafarn gymunedol
- Datblygu prosiect i hyrwyddo tai 'gwyrdd'.
- Adfer a chreu defnydd i Gapel Libanus

Cafwyd un cynnig dychmygus i sicrhau buwch gymunedol er mwyn cynhyrchu llaeth yn lleol.

### 2.7 Oes syniadau penodol gyda chi ynghylch prosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg, gwella gwasanaethau lleol, hyrwyddo ynni adnewyddadwy, gwarchod natur a bioamrywiaeth neu ddatblygu cyfleoedd celfyddydol a diwylliannol?

Cafwyd 44 ymateb i'r cwestiwn hwn. Rhestrir yr awgrymiadau o dan benawdau'r themâu:

#### 2.7.1 Hyrwyddo'r Gymraeg

- Dosbarthiadau Cymraeg lleol.
- 'Clwb clonc' a chyfleoedd i siarad Cymraeg yn anffurfiol.
- Teithiau cerdded misol i siaradwyr Cymraeg rhugl a siaradwyr newydd.
- Marchnad gynnyrch lleol sydd wedi ei chynllunio i hwyluso'r defnydd o Gymraeg.
- Grŵp dweud straeon lleol.
- Cynhyrchu pecynnau croeso i fewnfudwyr sy'n rhoi cefndir ieithyddol a diwylliannol y fro.
- Cynhyrchu rhestr o bobl leol allai gyfieithu testun neu gyfieithu ar lafar ar y pryd.

#### 2.7.2 Gwella gwasanaethau lleol

- Datblygu tai cymdeithasol, tai fforddiadwy a thai â chefnogaeth (*sheltered housing*) – o bosib mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cornwallis.
- Sefydlu cynllun ceir cymunedol i sicrhau mynediad i feddygfeydd, ysbytai ac ati.
- Defnyddio'r Ddarllenfa fel siop achlysurol

#### 2.7.3 Hyrwyddo ynni adnewyddadwy

- Ymchwilio i'r posibiliadau o sefydlu cynllun(iau) cynhyrchu trydan yn lleol drwy gyfrwng tyrbin gwynt, paneli solar, cynllun *biomethane* a thyrbin ddŵr (yn Afon Marlais).
- Sefydlu clwb ynni lleol i brynu trydan ar bris gostyngol gan gwmni 'gwyrdd'.
- Rhoi paneli solar ar Ddarllenfa Llansadwrn, ynghyd â system fatri er mwyn cael adnodd cymunedol wrth gefn pan mae'r cyflenwad trydan yn cael ei dorri.
- Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ger y Ddarllenfa yn Llansadwrn.
- Dosbarthu gwybodaeth am grantiau i hwyluso'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

- Sefydlu prosiect i hyrwyddo tai 'gwyrdd'.

### 2.7.4 Gwarchod natur a bioamrywiaeth

- Plannu blodau gwyllt mewn cloddiau a lleiniau ochr-y-ffordd.
- Sefydlu clwb natur dwyieithog.
- Ymatal rhag torri porfa'r cae cymunedol a thorri llwybrau cerdded drwyddo yn unig.
- Sefydlu ysgol goedwig cyfrwng Cymraeg.
- Sefydlu clwb cerdded lleol, mapio llwybrau lleol a chreu taflenni i'w hyrwyddo, ynghyd â hyrwyddo cynefinoedd a'r bywyd gwyllt lleol.
- Hyrwyddo gosod blychau adar a blychau ystlumod yn lleol.
- Gwarchod coetiroedd lleol.
- Datblygu cynlluniau draenio cynaliadwy (SUDS) yn lleol mewn cydweithrediad gyda thirfeddianwyr.

### 2.7.5 Datblygu cyfleoedd celfyddydol a diwylliannol

- Adfer Capel Libanus yn ofod perfformio ar gyfer digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol.
- Cefnogi sefydlu canolfan gelfyddydol a diwylliannol yn Llandeilo neu Lanymddyfri, tebyg i Theatr Mwldan, Aberteifi.

### 2.7.6 Awgrymiadau cyffredinol

- Sefydlu cylchlythyr lleol.
- Ymestyn llwybr beics Dyffryn Tywi.
- Cynhyrchu cyfeiriadur o gynhyrchwyr lleol.
- Agor siop yn lleol.

Nodwyd hefyd y gallai'r Cynghorau Cymuned lleol godi eu proffil a rhannu eu cyflawniadau.

## 2.8 A fyddech chi'n gefnogol i weld cwmni cymunedol yn cael ei sefydlu i geisio gwireddu rhai o'r syniadau a gynigiwyd gan bobl leol yn ystod yr ymgynghoriad hwn (e.e. Cymdeithas Budd Cymunedol)?

Atebodd 34 o unigolion y cwestiwn hwn – naill ai ar ar-lein neu drwy fynegi barn yn y prynhawn ymgynghorol. Roedd 22 (69%) yn gefnogol i'r syniad o sefydlu cwmni cymunedol, e.e. Cymdeithas Budd Cymunedol neu debyg, er mwyn gwireddu rhai o'r syniadau a gynigiwyd yn ystod yr ymgynghoriad cymunedol. Dau yn unig (6%) oedd yn erbyn y syniad tra roedd 8 (25%) dim yn siŵr ynghylch y syniad.

Cafwyd 19 sylw ynghylch y posibilrwydd. Roedd y rhan fwyaf yn gefnogol, gydag un ymatebydd yn barod i gefnogi'n ariannol i fenter o'r fath.

Roedd eraill angen mwy o wybodaeth ynghylch natur y fenter, gan ddweud y byddai eu cefnogaeth yn ddibynnol ar natur y gweithgareddau. Nododd un ymatebydd y farn ei bod hi'n bwysig cydweithio â'r cynghorau cymuned lleol. Nodwyd hefyd bod angen ystyried a chefnogi'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal eisoes.

Mynegwyd amheuon ynghylch y capasiti lleol i gynnal menter o'r fath, ac a fyddai digon o gyllid ar gael i'w gynnal yn llwyddiannus, ynghyd â'r ffaith bod angen cynllunio i'r tymor hir i sicrhau cynnal dilyniant. Awgrymwyd hefyd y byddai angen cyflogi swyddog prosiect i gynnal a chydlynu'r fenter o'i sefydlu.

Rhoddwyd cyfle hefyd i'r ymatebwyr nodi a fydden nhw'n barod i gynorthwyo'r grŵp prosiect i sefydlu cwmni cymunedol. Ymatebodd 33 ymatebydd i'r cwestiwn hwnnw, naill ai yn yr

holiadur ar-lein (18) neu mewn cyfweliad wyneb-yn-wyneb a'r holiadur ysgrifenedig (15). Ymatebodd 20 (60%) yn gadarnhaol, gyda 9 (27%) yn nodi'r ateb amodol, 'efallai'. Roedd 4 (13%) yn nodi na fydden nhw'n debygol o gynorthwyo ond y bydden nhw'n hoffi cadw mewn cyswllt â'r fenter.

Roedd y sgiliau a'r profiadau a gynigiwyd i'r fenter fel cymorth yn cwmpasu'r meysydd canlynol: cyfryngau cymdeithasol, ymchwil, trefnu, cyfieithu, bwyd, garddio, adeiladu, cynnal gweithdai, ynghyd â darparu cyngor a barn gyffredinol.

**2.9 Unrhyw sylw arall?**

Cafwyd 13 o sylwadau ychwanegol. Roedd y rhan fwyaf yn ailadrodd neu'n tanlinellu syniadau a gyflwynwyd eisoes, e.e.:

- yr angen am siop leol,
- awydd i weld tafarn y Sexton Arms yn agor yn hwy,
- awydd i weld hyrwyddo bioamrywiaeth yng nghae cymunedol Llansadwrn,
- awydd i weld y cenedlaethau iau yn cymryd at yr awenau cymdeithasol.

Un syniad a fynegwyd yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llansadwrn oedd sefydlu prosiect i gasglu enwau caeau lleol.

Cafwyd rhai sylwadau mwy eang hefyd. Nododd un ymatebydd bod pandemig COVID-19 wedi newid arferion cymdeithasol pobl a'u hymrwymiad cymunedol er gwaeth. Nododd ymatebydd arall dristwch o weld iaith digwyddiadau yn Narllenfa Llansadwrn yn newid o Gymraeg i Saesneg dros y blynyddoedd. Nododd ymatebydd arall rybudd rhag ymgecru lleol ar sail rhwydweithiau ieithyddol.

Cafwyd un neges o falchder ac anogaeth, neges a oedd yn llongyfarch y criw fu'n trefnu ar ddod ac egni newydd i fywyd cymdeithasol yr ardal.








**2.10 Trafodaeth grŵp ymgynghorol**

Yn ystod y prynhawn ymgynghorol ar 14 Mawrth 2026, cyflwynodd ymgynghorydd o gwmni IAITH Cyf. grynodeb o'r proffil ardal lleol i'r cyfranogwyr oedd yn bresennol, gan ysgogi eu hymateb i'r penawdau ystadegol a hwyluso trafodaeth ynghylch rhai blaenoriaethau gweithredol a awgrymir gan yr ystadegau.

Roedd y sylwadau penodol a nodwyd o'r drafodaeth, a gofnodwyd ar fflipsiart ar y pryd, yn troi o gwmpas y pwyntiau canlynol:

- Y diffyg o dai cymdeithasol a geir yn lleol a thwf llety gwyliau (e.e. llety Airbnb).
- Anawsterau trafnidiaeth a'r angen am gynllun tebyg i'r ceir gwledig (County Cars).
- Diffyg siop y gornel yn lleol.

Cododd y ffactorau cyd-destunol isod hefyd yn y sgyrsiau. Mynegwyd awydd i::

- gadw pobl ifanc yn yr ardal a denu mwy o'r cenedlaethau iau i'r fro,
- hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso dwyieithrwydd o fewn y gymuned,
- ymateb i'r wasgfa ar y diwydiant amaeth,
- gweithredu ynghylch diogelwch bwyd,
- hyrwyddo gwerthfawrogiad o adnoddau, cyfleusterau ac asedau lleol, a
- hyrwyddo cyfleoedd cymdeithasol er mwyn cynyddu ymddiriedaeth gymunedol.

# 3.0 Crynodeb, casgliad ac argymhellion

## 3.1 Crynodeb o'r canfyddiadau

Cytunwyd mai prif gwestiynau ymchwil yr ymarferiad fyddai:

1. Pa anghenion datblygu y mae pobl Llansadwrn a Llanwrda yn eu nodi o ran::

- hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant,
- mynediad i'r celfyddydau a chyfleoedd diwylliannol eraill,
- gwella gwasanaethau lleol,
- hyrwyddo ynni adnewyddadwy, a
- gwarchod a hyrwyddo bioamrywiaeth yr amgylchedd naturiol.

2. Pa gerbyd fyddai pobl yr ardal yn ei gefnogi er mwyn cyflawni'r amcanion hynny?

Rhoddwyd cyfle hefyd i'r cyfranogwyr fynegi barn am gryfderau a rhwystredigaethau byw yn yr ardal, ynghyd â syniadau adeiladol ynghylch sut i wella ansawdd bywyd i'r trigolion lleol a hyfywedd cymdeithasol yr ardal yn gyffredinol.

Cryfderau'r ardal

Yn gyffredinol, cafwyd yr argraff bod yr ymatebwyr yn fodlon iawn â'r profiad o fyw yn Llansadwrn a Llanwrda a'r gymdogaeth ehangach. Nodwyd bod yr amgylchedd gwledig, prydferthwch naturiol yr ardal a'i thawelwch heddychlon yn asedau amlwg. Ar yr un pryd, gwelwyd gwerth hefyd o fod yn weddol agos at y trefi marchnad lleol a chysylltiadau trafnidiaeth cymharol hwylus.

Mynegwyd gwerthfawrogiad didwyll o'r ysbryd cymunedol a geir yn yr ardal. Disgrifiwyd pobl yr ardal yn bobl gymdeithasol, greadigol, caredig, cyfeillgar a gofalgar o'i gilydd. Cyflëwyd yr argraff gref mai'r bobl, eu sgiliau a'u hagweddau oedd ased mwyaf yr ardal.

Nodwyd bod y Gymraeg yn nodwedd bwysig a chreiddiol o'r gymdeithas leol, mynegwyd ewyllys da cyffredinol tuag ati a chyflëwyd penderfyniad i'w gweld yn ffynnu.

Gwerthfawrogwyd bwrlwm yr holl grwpiau gwirfoddol a oedd yn cynnal bywyd cymdeithasol yr ardal. Ond gresynwyd hefyd at sut y bu i'r ardal golli nifer o wasanaethau allweddol megis siop y pentref, tafarn (Llanwrda), caffi a dwy ysgol gynradd yn y blynyddoedd diweddar. Gwerthfawrogir y ddarpariaeth a geir gan yr Eglwys, y Ddarllenfa a'r dafarn yn Llansadwrn. Gwerthfawrogir hefyd ymdrech ac ymroddiad y gwirfoddolwyr sy'n cynnal gweithgareddau cymdeithasol y fro.

Gwendidau'r ardal

Serch eu gwerthfawrogiad cyffredinol o'r ardal, mynegwyd nifer helaeth o rwystredigaethau gan yr ymatebwyr. Ymhlith y materion amlycaf roedd:

- Gwendidau'r drefn trafnidiaeth gyhoeddus yn lleol.
- Oriau cyfyngedig y dafarn yn Llansadwrn.
- Diffyg siop y gornel yn yr ardal.
- Bod hi'n anodd cael gwybodaeth ynghylch beth sy'n digwydd yn lleol.

Nodwyd hefyd rhai rhwystredigaethau mwy strategol:

- Bod y Gymraeg yn ystyriaeth eilradd yn lleol a bod dim digon o weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnal yn yr ardal – i siaradwyr rhugl na siaradwyr newydd.
- Bod dim canolfan ddiwylliannol amlwg yn yr ardal.
- Bod hi'n her i ddenu'r genhedlaeth iau i bwyllgorau a swyddi arweiniol o fewn y gymdogaeth.
- Bod yr ardal yn ddibynnol ar systemau allanol i sicrhau cyflenwadau o fwyd ac ynni.

Agweddau i'w gwella a'u datblygu

O ofyn pa agweddau y dylid ceisio eu gwella yn yr ardal y ddau ymateb pennaf oedd (a) yr awydd i weld siop (a Swyddfa'r Post) yn ail agor yn yr ardal a (b) yr awydd i weld y dafarn ar agor am fwy o oriau ac yn darparu bwyd ac adloniant yn rheolaidd.

Ymhlith yr ymatebion eraill a nodwyd roedd:

- Yr angen i sicrhau bod y gwasanaeth bws presennol yn parhau.
- Awydd i weld gweithgareddau fin nos yn cael eu cynnal yn y Ddarllenfa.
- Awgrym i ddatblygu'r cae cymunedol o ran codi adeilad cymunedol a gosod maes parcio.
- Bod llwybrau cyhoeddus yn cael eu gwarchod a'u datblygu a bod mwy o fynediad yn cael ei hwyluso i gefn gwlad.
- Bod angen gwella'r ddarpariaeth i blant ac ieuenctid yn lleol, e.e. clwb ieuenctid cyfrwng Cymraeg.

Yn fwy strategol, nodwyd hefyd yr angen i ddatblygu mwy o gartrefi fforddiadwy, cartrefi cymdeithasol a chartrefi sy'n cael eu cefnogi (*sheltered housing*) yn y fro.

Pan holwyd am syniadau ar gyfer y dyfodol, cafwyd wyth o awgrymiadau ynghylch datblygu'r cae cymunedol. Roedd nifer helaeth o'r ymatebion yn awgrymu digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol amrywiol i unigolion â diddordeb – cafwyd 17 awgrym penodol.

Roedd awgrymiadau eraill yn fwy uchelgeisiol eu bwriad, yn fwy eang eu cwmpas ac yn meddu ar y potensial i gyfrannu'n fwy uniongyrchol at wireddu amcanion strategol y grŵp prosiect, e.e.:

- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant ac ieuenctid – a allai gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg yn lleol.
- Cynnal dosbarthiadau Cymraeg a gweithgareddau i siaradwyr newydd.
- Datblygu cynlluniau i gynhyrchu ynni adnewyddol yn lleol.
- Sefydlu tafarn gymunedol.
- Agor siop y gornel gymunedol.
- Sefydlu grŵp i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus yr ardal.
- Trefnu achlysuron i drwco, gwerthu a hyrwyddo cynnyrch lleol.

Cyflawni nodau strategol Cynefin Llansadwrn

O holi am syniadau penodol a allai gyflawni nodau strategol y grŵp prosiect nodwyd y canlynol, ymhlith eraill. Gweler adran 2.7 am y rhestr lawn:

**1. Hyrwyddo'r Gymraeg**

- Dosbarthiadau Cymraeg lleol a chyfleoedd i siaradwyr newydd siarad Cymraeg yn anffurfiol gyda'u cymdogion, e.e. teithiau cerdded misol.
- Marchnad gynnyrch lleol sydd wedi ei chynllunio i hwyluso'r defnydd o Gymraeg.
- Cynhyrchu pecynnau croeso i fewnfudwyr sy'n rhoi cefndir ieithyddol a diwylliannol y fro.

**2. Gwella gwasanaethau lleol**

- Datblygu tai cymdeithasol, tai fforddiadwy a thai â chefnogaeth (*sheltered housing*).
- Sefydlu cynllun ceir cymunedol.
- Defnyddio'r Ddarllenfa yn Llansadwrn fel siop achlysurol.

**3. Hyrwyddo ynni adnewyddadwy**

- Ymchwilio i'r posibiliadau o sefydlu cynllun(iau) cynhyrchu trydan yn lleol drwy gyfrwng tyrbin gwynt, paneli solar, cynllun *biomethane* a thyrbin ddŵr (yn Afon Marlais).
- Sefydlu clwb ynni lleol i brynu trydan ar bris gostyngol gan gwmni 'gwyrdd'.
- Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ger y Ddarllenfa yn Llansadwrn.
- Dosbarthu gwybodaeth am grantiau i hwyluso'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

**4. Gwarchod natur a bioamrywiaeth**

- Sefydlu grwpiau gweithredu lleol a allai hwyluso prosiectau megis:
    - Plannu blodau gwyllt mewn cloddiau a lleiniau ochr-y-ffordd.
    - Mapio llwybrau lleol a'u hyrwyddo.
    - Creu taflenni i hyrwyddo cynefinoedd a'r bywyd gwyllt lleol.
    - Hyrwyddo gosod blychau adar ac ystlumod yn lleol.
    - Gwarchod coetiroedd lleol.
- Datblygu cynlluniau draenio cynaliadwy (SUDS) yn lleol mewn cydweithrediad gyda thirfeddianwyr.

**5. Datblygu cyfleoedd celfyddydol a diwylliannol**

- Adfer Capel Libanus yn ofod perfformio ar gyfer digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol.

**6. Sefydlu cwmni cymunedol**

Ymddengys bod cryn frwdfrydedd wedi ei danio yn yr ardal yn sgil yr ymarferiad ymgysylltu. Nododd 22 o'r cyfranogwyr y bydden nhw'n cefnogi gweld cwmni cymunedol yn cael ei sefydlu, e.e. Cymdeithas Budd Cymunedol, er mwyn hyrwyddo rhai o'r syniadau a gynigiwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Cynigodd 20 o bobl eu cymorth ymarferol i'r grŵp prosiect, gyda 9 arall yn cynnig cymorth amodol posib.

## 3.2 Casgliad

Prif nodau'r prosiect hwn fu:

- sefydlu sail wybodaeth ar gyfer cynllunio pellach,
- sefydlu llwyfan a cherbyd pwrpasol a allai ymateb yn adeiladol pan fo cyfleoedd datblygol yn cynnig eu hunain, ac
- annog ysbryd rhagweithiol ymhlith y boblogaeth leol a fyddai'n cynyddu eu perchnogaeth dros eu dyfodol nhw eu hunain.

Yr amcan fu ceisio ysgogi newid cymdeithasol a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol at hyfywedd cymdeithasol Llansadwrn, Llanwrda a'r fro o'u hamgylch.

Y cyfrwng a ddefnyddiwyd i ysgogi'r newid fu cynnal ymgynghoriad lleol a fyddai'n amlygu dyheadau pobl yr ardal ynghylch eu dyfodol, gan ganolbwyntio ar bum agwedd benodol. Holwyd pobl leol am syniadau ynghylch sut orau i:

- hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant,
- hwyluso mynediad i'r celfyddydau a chyfleoedd diwylliannol eraill,
- gwella gwasanaethau lleol,
- hyrwyddo ynni adnewyddadwy, a
- gwarchod a hyrwyddo bioamrywiaeth yr amgylchedd naturiol.

Cafwyd cyfoeth o syniadau ac awgrymiadau – ynghylch y pum maes uchod, ynghyd â meysydd eraill perthnasol – sy'n rhoi sail wybodaeth gadarn i'r grŵp ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. Ar y sail wybodaeth hon gall y grŵp prosiect fwrw ati i gychwyn llunio cynllun datblygu bro hynod o gynhwysfawr, eang a deinamig.

Yn ail, gellir hefyd dod i'r casgliad bod y bwrlwm cymdeithasol a gynhyrchwyd gan yr ymarferiad, ynghyd â'r addewidion o gefnogaeth a dderbyniwyd gan gyfranogwyr, yn cyfiawnhau bwriad y grŵp prosiect i sefydlu cwmni cymunedol corfforedig i hwyluso a gwireddu dyheadau trigolion cymunedau Llansadwrn, Llanwrda a'r fro ehangach.

Yn drydydd mae'r bwrlwm a gynhyrchwyd wedi ysgogi ysbryd rhagweithiol ymhlith carfan o'r boblogaeth leol, gan godi ymwybyddiaeth bod angen i'r boblogaeth leol gynyddu eu perchnogaeth dros eu dyfodol nhw eu hunain.

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, felly, gellir dod i'r casgliad bod yr ymgynghoriad cymunedol hwn wedi bod yn un hynod o lwyddiannus

### 3.3 Argymhellion

Ar sail y dystiolaeth uchod, argymhellir bod y grŵp prosiect yn ystyried y camau gweithredu canlynol:

1. Adrodd yn ôl a rhannu canfyddiadau'r ymgynghoriad cymunedol hwn gyda phobl yn lleol, gan gynnwys cynnal cyfarfod adborth naill ai yn y Ddarllenfa, Eglwys Llansadwrn neu'r Sexton Arms yn Llansadwrn.

2. Cynnal sgyrsiau pellach gyda grwpiau ac unigolion allweddol ynghylch sut orau i wireddu rhai o'r syniadau a awgrymwyd, e.e. pwyllgor y Ddarllenfa, pwyllgor y cae cymunedol yn Llansadwrn, offeiriad mewn gofal a wardeniaid Eglwys Llansadwrn, perchennog y Sexton Arms, pwyllgor rheoli Capel Libanus, Cyngor Cymuned Llansadwrn a Chyngor Cymuned Llanwrda.

3. Ymgynghori ymhellach gyda'r grŵp oedran 16-24 oed, trwy gysylltu ag aelodau C.Ff.I. Llangadog, disgyblion ysgol a theuluoedd ifanc yn lleol.

4. Defnyddio cynnyrch yr ymgynghoriad hwn fel sail i ddatblygu Cynllun Datblygu Bro; a chynnal ymarferiad blaenoriaethu dilynol er mwyn rhoi ffocws pellach i'r grŵp gweithredol ynghylch ble i roi cychwyn ar bethau.

5. Bwrw ymlaen â'r bwriad i sefydlu cwmni cymunedol corfforedig, gan ymchwilio i'r cerbyd gorau a fyddai'n debygol o wireddu amcanion y Cynllun Datblygu Bro.

6. Ymchwilio i ffynonellau cyllid er mwyn ariannu gweithgaredd a gweinyddiaeth y cwmni cymunedol corfforedig, gan gynnwys canfod cyllid i gyflogi cydlynydd.

7. Ystyried sut i gynnwys grwpiau a dangynrychiolwyd yn yr ymarferiad hwn mewn ymgynghoriadau a phrosiectau i'r dyfodol, yn enwedig y genhedlaeth iau, gwrywod, siaradwyr Cymraeg brodorol ac unigolion o unrhyw leiafrifoedd ethnig sy'n byw'n lleol.

**Gareth Ioan**
**IAITH  Cyf.**
**Mai 2026**

